

Dyma fersiynau Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg o'r llyfryn bach *O Geg y Deintydd / From the Dentist's Mouth* a fydd ar gael mewn deintyddfeydd yn 2014.

O GEG Y DEINTYDD

Gosodiadau
a chwestiynau
yn y ddeintyddfa

Golygydd Cyffredinol
J. Elwyn Hughes

© Dr J. Elwyn Hughes
Bryn Ogwen, Bethel, Caernarfon,
Gwynedd LL55 3AA
01248 670 517 / 07979 50 66 80

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu
unrhyw ran o'r gwaith hwn na'i gadw mewn
cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng,
heb ganiatâd ymlaen llaw gan y golygydd cyffredinol,
Dr J. Elwyn Hughes

Argraffiad cyntaf: 2013

Cyhoeddwyd gan
Y Gymdeithas Ddeintyddol

Rhagair

Sefydlwyd y Gymdeithas Ddeintyddol ym 1991 i wasanaethu deintyddion ac ymarferwyr cysylltiol ym maes deintyddiaeth ac orthodonteg yng Nghymru drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Manteisir ar bob cyfle i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y maes, a phrawf o hynny yw fod y Gymdeithas eisoes wedi cyhoeddi yn 2005 restr o dermau ym maes deintyddiaeth dan y teitl *Geiriadur Deintyddiaeth*. Enillodd y cyhoeddiad hwnnw wobwr o £1000 yng nghystadleuaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd a gwobr gyffelyb yn 2009 am

drosi i'r Gymraeg 29 o daflenni Saesneg a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Ddeintyddol Brydeinig (y BDA).

Eleni eto, amlygir blaengaredd parhaol y Gymdeithas Ddeintyddol o ran cwrdd ag anghenion cleifion am ofal sylfaenol Cymraeg/dwyieithog mewn cyhoeddiad sy'n arloesol ym maes deintyddiaeth.

Mae'r llyfryn dwyieithog hwn yn cynnwys gosodiadau a chwestiynau a ddigwydd yn gyffredin a chyson gan ddeintydd wrth drafod triniaeth gyda chlaf Cymraeg ei iaith, gyda sylw hefyd i anghenion ieithyddol y rhai sy'n dysgu Cymraeg.

Cynhyrchir dau lyfryn yn un, fel petai – llyfryn Cymraeg-Saesneg, 'O Geg y Deintydd', a llyfryn Saesneg-Cymraeg, 'From the Dentist's Mouth'. Bydd y dull hwn o gyflwyno'r deunydd yn cwrdd ag anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith a chleifion sy'n dysgu Cymraeg. Penderfynwyd cynnwys nifer gymharol gyfyngedig o osodiadau a chwestiynau – rhai cyfarwydd, addas ac aml eu defnydd – gan osgoi termau deintyddol arbenigol a thechnegol.

Pwyswyd yn drwm ar aelodau'r Gymdeithas Ddeintyddol ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith am awgrymiadau ynghylch cynnwys y llyfryn a bu cyfraniad adeiladol deintyddion-wrth-eu-gwaith, yn enwedig Dr Justin Jones, yn amhrisiadwy wrth lunio'r detholiad a geir yma o osodiadau a chwestiynau.

Gobeithir y bydd y deunydd o fudd i ddeintyddion wrth iddynt gyfathrebu â'u cleifion Cymraeg a dysgwyr mewn deintyddfeydd 'stryd fawr', clinigau cymunedol ac ysbytai (mewn gofal sylfaenol ac eilaidd) ac, yn bwysicach na dim, o werth diamheuol i'r cleifion eu hunain ledled y wlad.

Dr J. Elwyn Hughes

A. Derbynfya – Reception

- 1. Bora da**
Good morning
- 2. Pnawn da**
Good afternoon
- 3. S'ma'i**
Hello
- 4. Su' dach chi?**
How e you?
- 5. Os gwelwch chi'n dda / Plis**
Please
- 6. Sgynnoch chi apwyntiad heddiw?**
Do you have an appointment today?
- 7. `Pwy 'di'ch deintydd chi?**
Who is your dentist?
- 8. Be 'di'ch enw llawn chi?**
What is your full name?
- 9. Be 'di'ch dyddiad geni chi?**
What is your date of birth?

10. **Be 'di'ch cyfeiriad chi?**
What is your address?
11. **Be 'di'ch rhif ffôn chi?**
What is your telephone number?
12. **Be 'di rhif eich ffôn cludol chi?**
What is your mobile number?
13. **Mi'ch gwelwn chi ymhen chwe mis**
We'll see you in six months time
14. **Diolch / Diolch i chi**
Thanks / Thank you
15. **Diolch yn fawr iawn**
Thank you very much
16. **Llawer o ddiolch i chi**
Many thanks to you
17. **Croeso / Croeso i chi**
Welcome / You're welcome
18. **Hwyl rwan / Da boch [chi]**
Bye now / Cheerio
19. **Cost eich triniaeth ddeintyddol ydi £ ...**
The cost of your dental treatment is £ ...
20. **Mi fydd eich triniaeth ddeintyddol yn costio tua £ ...**
The estimated cost of your dental treatment is £ ...
21. **Dyma'ch cerdyn apwyntiad efo dyddiadau eich apwyntiadau**
Here is your appointment card with a list of appointment dates
22. **Wnewch chi lenwi'r daflen yma ynghylch eich hanes meddygol, os gwelwch chi'n dda**
Will you please fill in this medical history sheet
23. **Mae trefniadau'r tu-allan-i-oriau fel a ganlyn ...**
The out of hours arrangements are as follows ...
24. **Gellwch ffonio ... tan 5.30 bob dydd yn ystod yr wythnos ac ar ôl hynny gellwch ffonio Galw lechyd Cymru am gyngor neu ynghylch unrhyw driniaeth frys a all fod yn angenrheidiol**
You can phone ... until 5.30 every weekday and thereafter you can phone NHS Direct for advice and any emergency treatment you may require

B. Archwiliad – Examination

1. **Eisteddwch, os gwelwch chi'n dda**
Take a seat, please
2. **Ydach chi'n gyfforddus?**
Are you comfortable?
3. **Unrhyw broblemau er pan fuoch chi yma o'r blaen?**
Any problems since your last visit?

4. **Ydach chi wedi gweld yr hylenydd?**
Have you seen the hygienist?
5. **Agorwch ych ceg yn llydan, os gwelwch chi'n dda**
Open your mouth wide, please
6. **Ydach chi'n hapus efo sut mae'ch dannedd yn edrych?**
Are you happy with the appearance of your teeth?
7. **Mae'n rhaid i ni gymryd lluniau pelydr-x**
We need to take x-rays
8. **Oes 'na unrhyw bosibilrwydd y gallech fod yn feichiog?**
Is there a chance you could be pregnant?
9. **Unrhyw ddannedd wedi torri neu unrhyw sensitifrwydd?**
Any broken teeth or sensitivity?
10. **Mae'ch dannedd chi wedi gwisgo**
You have tooth-wear
11. **Rhowch ych tafod allan**
Put your tongue out
12. **Am ba hyd mae'r wlsar yma wedi bod gynnoch chi?**
How long have you had this ulcer?
13. **Ydach chi'n cael wlsarau yn eich ceg yn aml?**
Do you often have ulcers in your mouth?
14. **Ers pryd mae'r dolur annwyd 'na ar eich gwefus chi?**
Since when have you had that cold sore on your lip?
15. **Ydi'ch meddyg chi'n wedi rhoi unrhyw foddion newydd i chi y dylen ni wybod amdany'n nhw**
Are you taking any new medication prescribed by your doctor which we should know about
16. **A fydddech chi mor garedig â bwrw golwg ar daflen eich hanes meddygol i weld ydi'r wybodaeth ddiweddraf ynddi. Newidiwch fel y bo'r angen**
Will you have a look at your medical history sheet and check that it is up to date. Please amend as necessary
17. **Llofnodwch y daflen i ddynodi eich bod wedi gwirio'r wybodaeth sydd arni**
Please sign the sheet to verify that you have checked it
18. **Ydach chi'n diodda o glefyd siwgwr? ... o glefyd y galon ... o asthma?**
Do you suffer from diabetes? ... heart disease? ... asthma?
19. **Pa dabledi ydach chi'n eu cymryd?**
Which tablets are you taking?
20. **Ydach chi'n cymryd tabledi at bwysau gwaed uchel**
Are you taking tablets for high blood pressure?
21. **Ydach chi'n diodda o unrhyw alergedd?**
Do you suffer from any allergies?
22. **Ydach chi wedi brathu eich tafod?**
Have you bitten your tongue?
23. **Bydd yn rhaid i chi gael triniaeth orthodontig**

You need orthodontic treatment

24. **Fysach chi'n hoffi cael gwynnu eich dannedd?**
Would you like your teeth bleached?
25. **Mae'n rhaid i mi gael golwg arall arnach chi ymhen wythnos**
You need a review in one week
26. **Wnewch chi drefnu apwyntiad arall yn y dderbynfa?**
Will you arrange another appointment with the receptionist?
27. **Mae'n rhaid i chi wneud apwyntiad i gael archwiliad chwe misol**
You need a six month check-up appointment

B (i). Archwiliad – Hylendid y Geg
Examination – Oral Hygiene

1. **Mae'n rhaid i chi gael gweld yr hylenydd / therapydd ar gyfer digennu a llathru**
You need to see the hygienist / therapist for a scale and polish
2. **Mae angen cyngor arnach chi ynghylch hylendid y geg**
You need advice on oral hygiene
3. **Ydach chi'n yfed llawer o ddiodydd meddal?**
Do you drink a lot of soft drinks?
4. **Mae'n rhaid i chi olchi'ch ceg efo hylif fflworid bob dydd**
You need a daily fluoride rinse
5. **Defnyddiwch bast dannedd efo fflworid ynddo fo**
Use toothpaste that has fluoride in it
6. **Mi ddangosith yr hylenydd i chi sut i ddefnyddio brwsys rhyngddeintiol**
The hygienist will show you how to use interdental brushes

C (i). Adferiad – Llenwadau
Restoration – Fillings

1. **Mae angen i chi gael llenwad yn y dant yna**
You need a filling in that tooth
2. **Mi fydd yn rhaid i ni gael gwared â'r pydredd 'na**
We must get rid of that decay
3. **Ydach chi angen tawelydd?**
Do you need sedation?
4. **Mi wnawn ni'r driniaeth yma dan anesthetig lleol**
We'll do this treatment under local anaesthetic
5. **Mae'n rhaid i ni rewi'r dant yma**
We need to freeze this tooth
6. **Dw i am roi pigiad bach i chi**
I'm going to give you a little injection
7. **Ydi'ch ceg chi'n ddideimlad rwan?**

Is your mouth numb now?

8. **Codwch ych llaw os bydda i'n ych brifo chi**
Lift your hand up if I hurt you
9. **Ceisiwch ymlacio**
Try to relax
10. **Mi gewch chi ymlacio rŵan**
You may relax now
11. **Fysach chi'n hoffi cael llenwad gwyn?**
Would you like a white filling?
12. **Mae'n rhaid i chi gael llenwad yng ngwraidd y dant**
You need a root filling
13. **Cymerwch lymaid o ddŵr dros ych ceg**
Would you like to rinse your mouth
14. **Ydi'r llenwad yn teimlo'n iawn wrth i chi frathu?**
Does the filling feel alright to the bite?
15. **Ydi'ch brathiad chi'n teimlo'n iawn?**
Does your bite feel alright?
16. **Golchwch ych ceg efo cegolch**
Rinse your mouth with mouthwash

C (ii) Adferiad – Triniaeth y Gwreiddyn
Restoration – Root Treatment

1. **Mi fydd y dant yn teimlo'n well ar ôl i mi roi llenwad yn sianel y gwreiddyn**
The tooth will feel better after I've put a filling in the root canal
2. **Mae'n rhaid i ni roi ffrâm llen rwber o amgylch y dant**
We need to place a rubber dam around the tooth
3. **Mae'n rhaid i ni roi dresin-gwraidd yn y dant**
We need to root dress the tooth

D (i). Adferiad Pellach – Coronau / Argaenau
Advanced Restorative – Crowns / Veneers

1. **Mae angen i chi gael coron**
You need a crown
2. **Mae angen i chi gael argaen**
You need a veneer
3. **Rhaid i mi roi coron dros dro ar y dant yna**
I must put a temporary crown on that tooth

D (ii). Adferiad Pellach – Pontydd
Advanced Restorative – Bridges

1. **Mae angen i chi gael pont**
You need a bridge
2. **Mae angen i ystyried cael triniaeth fewnblannu**
You need to consider implant treatment

D (iii). Adferiad Pellach – Dannedd Gosod
Advanced Restorative – Dentures

1. **Mae angen i chi gael dannedd gosod newydd**
You need new dentures
2. **Wedi i mi gymryd argraff o'ch ceg, mi gaiff y technegydd deintyddol wneud dannedd gosod i chi**
After I've taken an impression of your mouth, the dental technician will make dentures for you
3. **Dydi cael cyfog gwag ddim yn beth anghyffredin pan fydd gynnoch chi ddeunydd argraff yn ych ceg**
Retching is not uncommon when you have impression material in your mouth
4. **Mae'n cymryd pedwar neu bum apwyntiad fel arfer i orffen y dannedd gosod**
A denture usually takes four to five appointments to complete
5. **Ydach chi'n hapus efo sut y mae'r dannedd gosod yn edrych hyd yma?**
Do you like the look of the denture at this try-in stage?
6. **Ydi'r dannedd gosod newydd yn brifo'ch gorchfannau?**
Is the new denture hurting your gums?

E. Periodontol – Periodontal

1. **Mae gynnoch chi haint ar eich gorchfannau**
You have gum disease
2. **Mae'n rhaid i chi gael triniaeth i'ch gorchfannau**
You need treatment to your gums
3. **Ydi'ch gorchfannau chi'n gwaedu?**
Do your gums bleed?
4. **Mae'r lluniau pelydr-x yn dangos coll-asgwrn oherwydd y calchgen sydd rhwng y dannedd**
The x-rays show bone loss due to interdental calculus
5. **Mae'n rhaid i ni ddangos i chi sut i edrych ar ôl eich gorchfannau'n iawn**
We need to show you how to look after your gums properly
6. **Mae'n rhaid i ni wneud siart o ddyfnder pocedi'ch gorchfan a'r manau sy'n gwaedu**
We need to make a chart of your gum pocket depth and bleeding sites
7. **Mae gynnoch chi ddant rhydd iawn y bydd yn rhaid i ni ei dynnu**
You have a very loose tooth which needs extracting

8. **Mae gynnoch chi grawniad periodontol**
You have a periodontal abscess
9. **Mae'n rhaid i ni wneud sblint i chi**
We need to make you a sblint
10. **Mae angen llacio'ch brathiad**
We need to ease the bite
11. **Wnewch chi gresian eich dannedd, os gwelwch chi'n dda?**
Will you grind your teeth, please?
12. **Ydach chi'n crensian eich dannedd yn y nos?**
Do you grind your teeth at night?

F (i). Gofal Brys – Poen
Emergency Treatment – Pain

1. **Dangoswch i mi ble mae'r ddannodd**
Show me where you have toothache
2. **Ydi'r dant yn sensitif i boeth ac oer?**
Is the tooth sensitive to hot and cold?
3. **Ydi'r dant yn dendar wrth ei gyffwrdd?**
Is the tooth tender to the touch?
4. **Am ba hyd mae'r boen yn para?**
How long does the pain last?
5. **Mi ro i rw bath i chi at y boen**
I'll give you something for the pain
6. **Ydi'r boen yn well erbyn hyn?**
Is the pain better now?

F (ii). Gofal Brys – Anafiadau
Emergency Treatment – Trauma

1. **Pryd wnaethoch chi frifo'ch dant?**
When did you traumatise the tooth?
2. **Oeddech chi'n anymwybodol?**
Were you unconscious?
3. **Ydach chi wedi cadw'r dant mewn llefrith?**
Have you stored the tooth in milk?
4. **Ydi'ch brathiad chi wedi newid?**
Has your bite changed?
5. **Ydi'ch gên chi'n dendar?**
Is your jaw tender?
6. **Mae'n rhaid i ni gymryd llun pelydr-x i weld a oes gwreiddyn wedi torri**
We need an x-ray to check for a broken root
7. **Mae'n rhaid i chi gael sblint i gynnal y dant**

You need a splint to support the tooth

8. **Mae'n rhaid i ni gael golwg ar fywioldeb y dant**
We need to check the vitality of the tooth
9. **Mae'n rhaid i ni roi gorchudd dros dro ar y bywyn sydd yn y golwg**
We need to put a temporary cover over the exposed pulp
10. **Mae'n rhaid i ni osod yn dant yn ôl yn ei soced**
We need to replace the tooth in its socket

F (iii). Gofal Brys – Heintiau
Emergency Treatment – Infection

1. **Mae 'na haint o gwmpas y trydydd cildant**
There's an infection around your wisdom tooth/third molar
2. **Mae'ch wyneb chi wedi chwyddo**
Your face is swollen
3. **Mae gynnoch chi grawniad**
You have an abscess
4. **Mae'n rhaid i chi gael cwrs o wrthfotigau**
You need a course of antibiotics

G (i). Cyfeirio – Anesthetig Cyffredinol
Referral – General Anaesthetic

1. **Mae'n rhaid i chi gael anesthetig cyffredinol**
You need referral for a general anaesthetic

G (ii). Cyfeirio – Llawdriniaeth y Geg
Referral – Oral Surgery

1. **Mae'n rhaid i chi gael tynnu'r dant 'na**
You need to have an extraction
2. **Bydd yn rhaid i ni'ch cyfeirio chi at ymgynghorydd yn yr ysbyty**
We'll have to refer you to a hospital consultant
3. **Mae gofyn i chi gael triniaeth lawfeddygol**
You need surgical treatment
4. **Mi fydd gofyn i chi gael tynnu'r trydydd cildant**
You will have to have your wisdom tooth extracted

G (iii). Cyfeirio – Orthodonteg
Referral – Orthodontics

1. **Mi fydd angen i chi fynd i weld orthodontegydd**
You need to be seen by an orthodontic specialist

2. **Mi fyddwch yn gorfod gwisgo sythwr dannedd am gyfnod**
You'll have to wear a brace for a period of time

H. Plant – Children

1. **Bydd yn rhaid i'ch plentyn gael llenwad yn un o'i ddannedd cyntaf**
Your child needs a filling in a baby tooth
 2. **Mi fydd yn rhaid i'ch plentyn gael selydd rhychau ar ei ddannedd parhaol newydd**
Your child needs fissure sealant on the new adult teeth
 3. **Mae'n rhaid i'ch plentyn gael cyngor ar hylendid y geg**
Your child needs oral health instruction
 4. **Mae'n rhaid i'ch plentyn gnoi tabled er mwyn dangos y plac**
Your child needs plaque disclosure
 5. **Mae'n rhaid i'ch plentyn gael ei (g)weld gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol**
Your child needs referral to Community Dental Service
 6. **Mae'n rhaid i'ch plentyn roi'r gorau i sugno'i fawd / i sugno'i bawd**
Your child needs to stop sucking their thumb
 7. **Mae'n rhaid i'ch plentyn roi'r gorau i ddefnyddio dymi**
Your child needs to stop using a dummy
 8. **Mae'n rhaid i'ch plentyn frwsio'i (d)dannedd cyn mynd i'r gwely**
Your child needs to brush his/her teeth at bedtime
 9. **Mae angen i'ch plentyn ddefnyddio cegolch fflûworid bob dydd**
Your child needs to use a daily fluoride mouthwash
 10. **Mae angen i'ch plentyn gael cyngor ynghylch deiet**
You need diet advice for your child
-

FROM THE DENTIST'S MOUTH

Statements
and questions
in a dental surgery

General Editor
J. Elwyn Hughes

Y Gymdeithas Ddeintyddol
(*The Welsh Dental Society*)
2013

© Dr J. Elwyn Hughes
Bryn Ogwen, Bethel, Caernarfon,
Gwynedd LL55 3AA
01248 670 517 / 07979 50 66 80

All rights are reserved. No part of this work can be reproduced nor stored in a retrieval system nor transmitted in any form or by any means, without prior permission by the general editor, Dr J. Elwyn Hughes

First edition: 2013

Published by
Y Gymdeithas Ddeintyddol
(*The Welsh Dental Society*)

Preface

The Welsh Dental Society was established in 1991 to serve Welsh dentists and associate practitioners in dentistry and orthodontics through the medium of the Welsh language. Every opportunity is seized upon to foster and promote the language within these fields, proof of which is manifest by the fact that the Society has already published *Geiriadur Deintyddiaeth*, a dictionary of English-Welsh dental terms. This publication won a prize of £1000 in a competition organised by NHS Wales entitled 'Welsh Language in Health Care Awards'. A

similar prize was won in 2011 for the Society's translation into Welsh of 29 leaflets published by the British Dental Association (the BDA).

This year, the Welsh Dental Society's continuing initiative in meeting the needs of patients for primary care in Welsh or bilingually is manifest in a pioneering publication in the field of dentistry.

This bilingual booklet contains statements and questions that are commonly and frequently used by a dentist when discussing treatment with a Welsh-speaker, also bearing in mind the linguistic needs of those who are learning Welsh.

Two booklets as it were are being produced – a Welsh-English booklet and an English-Welsh version. This method of presentation will meet the needs of both Welsh-speaking patients and learners, with the English title, *From the Dentist's Mouth* being the exact equivalent of the Welsh title, *O Geg y Deintydd*. It was decided to include a relatively small number of statements and questions – those that are familiar, appropriate and often used – and avoiding specialist and technical dental terms.

Members of the Welsh Dental Society's Executive Committee, especially Dr Justin Jones, made a valuable contribution in the form of suggestions to be included in this booklet and their constructive ideas were much appreciated.

It is hoped that this work will be useful to dentists as they communicate with their Welsh-speaking patients, and learners, in 'high street' dental surgeries, community clinics and hospitals (in primary and secondary care) and, most important of all, of essential help to patients themselves throughout the country.

Dr J. Elwyn Hughes

A. Reception – *Derbynfa*

1. **Good morning**
Bora da
2. **Good afternoon**
Pnawn da
3. **Hello**
S'ma'i
4. **How are you?**
Su' dach chi?
5. **Please**
Os gwelwch chi'n dda / Plîs
6. **Do you have an appointment today?**
Sgynnoch chi apwyntiad heddiw?
7. **Who is your dentist?**
Pwy 'di'ch deintydd chi?
8. **What is your full name?**
Be 'di'ch enw llawn chi?
9. **What is your date of birth?**
Be 'di'ch dyddiad geni chi?

- 10. What is your address?**
Be 'di'ch cyfeiriad chi?
- 11. What is your telephone number?**
Be 'di'ch rhif ffôn chi?
- 12. What is your mobile number?**
Be 'di rhif eich ffôn cludol chi?
- 13. We'll see you in six months time**
Mi'ch gwelwn chi ymhen chwe mis
- 14. Thanks / Thank you**
Diolch / Diolch i chi
- 15. Thank you very much**
Diolch yn fawr iawn
- 16. Many thanks to you**
Llawer o ddiolch i chi
- 17. Welcome / You're welcome**
Croeso / Croeso i chi
- 18. Bye now / Cheerio**
Hwyl nŵan / Da boch [chi]
- 19. The cost of your dental treatment is £ ...**
Cost eich triniaeth ddeintyddol ydi £ ...
- 20. The estimated cost of your dental treatment is £ ...**
Mi fydd eich triniaeth ddeintyddol yn costio tua £ ...
- 21. Here is your appointment card with a list of appointment dates**
Dyma'ch cerdyn apwyntiad efo dyddiadau eich apwyntiadau
- 22. Will you please fill in this medical history sheet**
Wnewch chi lenwi'r daflen yma ynghylch eich hanes meddygol, os gwelwch chi'n dda
- 23. The out of hours arrangements are as follows ...**
Mae trefniadau'r tu-allan-i-oriau fel a ganlyn ...
- 24. You can phone ... until 5.30 every weekday and thereafter you can phone NHS direct for advice and any emergency treatment you may require**
Gellwch ffonio ... tan 5.30 bob dydd yn ystod yr wythnos ac ar ôl hynny gellwch ffonio Galw Iechyd Cymru am gyngor neu ynghylch unrhyw driniaeth frys a all fod yn angenrheidiol

B. Examination – Archwiliad

- 10. Take a seat, please**
Eisteddwch, os gwelwch chi'n dda
- 11. Are you comfortable?**
Ydach chi'n gyfforddus?
- 12. Any problems since your last visit?**
Unrhyw broblemau er pan fuoch chi yma o'r blaen?

- 13. Have you seen the hygienist?**
Ydach chi wedi gweld yr hylenydd?
- 14. Open your mouth wide, please**
Agorwch ych ceg yn llydan, os gwelwch chi'n dda
- 15. Are you happy with the appearance of your teeth?**
Ydach chi'n hapus efo sut mae'ch dannedd yn edrych?
- 16. We need to take x-rays**
Mae'n rhaid i ni gymryd lluniau pelydr-x
- 17. Is there a chance you could be pregnant?**
Oes 'na unrhyw bosibilrwydd y gallech fod yn feichiog?
- 18. Any broken teeth or sensitivity?**
Unrhyw ddannedd wedi torri neu unrhyw sensitifrwydd?
- 10. You have tooth-wear**
Mae'ch dannedd chi wedi gwisgo
- 12. Put your tongue out**
Rhowch ych tafod allan
- 13. How long have you had this ulcer?**
Am ba hyd mae'r wlsur yma wedi bod gynnoch chi?
- 14. Do you often have ulcers in your mouth?**
Ydach chi'n cael wlserau yn eich ceg yn aml?
- 15. Since when have you had that cold sore on your lip?**
Ers pryd mae'r dolur annwyd 'na ar eich gwefus chi?
- 16. Are you taking any new medication prescribed by your doctor which we should know about**
Ydi'ch meddyg chi'n wedi rhoi unrhyw foddion newydd i chi y dylen ni wybod amdany'n nhw
- 17. Will you have a look at your medical history sheet and check that it is up to date. Please amend as necessary**
A fyddech chi mor garedig â bwrw golwg ar daflen eich hanes meddygol i weld ydi'r wybodaeth ddiweddaraf ynddi. Newidiwch fel y bo'r angen
- 18. Please sign the sheet to verify that you have checked it**
Llofnodwch y daflen i ddynodi eich bod wedi gwirio'r wybodaeth sydd arni
- 19. Do you suffer from diabetes? ... heart disease? ... asthma?**
Ydach chi'n diodda o glefyd siwgwr? ... o glefyd y galon ... o asthma?
- 20. Which tablets are you taking?**
Pa dabledi ydach chi'n eu cymryd?
- 21. Are you taking tablets for high blood pressure?**
Ydach chi'n cymryd tabledi at bwysau gwaed uchel?
- 22. Do you suffer from any allergies?**
Ydach chi'n diodda o unrhyw alergedd?
- 23. Have you bitten your tongue?**
Ydach chi wedi brathu eich tafod?
- 24. You need orthodontic treatment**
Bydd yn rhaid i chi gael triniaeth orthodontig

25. Would you like your teeth bleached?

Fysach chi'n hoffi cael gwynnu eich dannedd?

26. You need a review in one week

Mae'n rhaid i mi gael golwg arall arnach chi ymhen wythnos

27. Will you arrange another appointment with the receptionist?

Wnewch chi drefnu apwyntiad arall yn y dderbynfa?

28. You need a six month check-up appointment

Mae'n rhaid i chi wneud apwyntiad i gael archwiliad chwe misol

Archwiliad – Hylendid y Geg

1. You need to see the hygienist / therapist for a scale and polish

Mae'n rhaid i chi gael gweld yr hylenydd / therapydd ar gyfer digennu a llathru

2. You need advice on oral hygiene

Mae angen cyngor arnach chi ynghylch hylendid y geg

3. Do you drink a lot of soft drinks?

Ydach chi'n yfed llawer o ddiodydd meddal?

4. You need a daily fluoride rinse

Mae'n rhaid i chi olchi'ch ceg efo hylif fflworid bob dydd

5. Use toothpaste that has fluoride in it

Defnyddiwch bast dannedd efo fflworid ynndo fo

6. The hygienist will show you how to use interdental brushes

Mi ddangosith yr hylenydd i chi sut i ddefnyddio brwsys rhyngddeintiol

C (i). Restoration – Fillings

Adferiad – Llenwadau

1. You need a filling in that tooth

Mae angen i chi gael llenwad yn y dant yna

2. We must get rid of that decay

Mi fydd yn rhaid i ni gael gwared â'r pydredd 'na

3. Do you need sedation?

Ydach chi angen tawelydd?

4. We'll do this treatment under local anaesthetic

Mi wnawn ni'r driniaeth yma dan anesthetig lleol

5. We need to freeze this tooth

Mae'n rhaid i ni rewi'r dant yma

6. I'm going to give you a little injection

Dw i am roi pigiad bach i chi

7. Is your mouth numb now?

Ydi'ch ceg chi'n ddideimlad rwan?

8. Lift your hand up if I hurt you

Codwch ych llaw os bydda i'n ych brifo chi

9. Try to relax

Ceisiwch ymlacio

10. You may relax now

Mi gewch chi ymlacio rŵan

11. Would you like a white filling?

Fysach chi'n hoffi cael llenwad gwyn?

12. You need a root filling

Mae'n rhaid i chi gael llenwad yng ngwraidd y dant

13. Would you like to rinse your mouth

Cymerwch lymaid o ddŵr dros ych ceg

14. Does the filling feel alright to the bite?

Ydi'r llenwad yn teimlo'n iawn wrth i chi frathu?

15. Does your bite feel alright?

Ydi'ch brathiad chi'n teimlo'n iawn?

16. Rinse your mouth with mouthwash

Golchwch ych ceg efo cegolch

C (ii) Restoration – Root Treatment

Adferiad – Triniaeth y Gwreiddyn

1. The tooth will feel better after I've put a filling in the root canal

Mi fydd y dant yn teimlo'n well ar ôl i mi roi llenwad yn sianel y gwreiddyn

2. We need to place a rubber dam around the tooth

Mae'n rhaid i ni roi ffrâm llen rwber o amgylch y dant

3. We need to root dress the tooth

Mae'n rhaid i ni roi dresin-gwraidd yn y dant

D (i). Advanced Restorative – Crowns / Veneers

Adferiad Pellach – Coronau / Argaenau

4. You need a crown

Mae angen i chi gael coron

5. You need a veneer

Mae angen i chi gael argaen

6. I must put a temporary crown on that tooth

Rhaid i mi roi coron dros dro ar y dant yna

D (ii). Advanced Restorative – Bridges

Adferiad Pellach – Pontydd

3. You need a bridge

Mae angen i chi gael pont

4. You need to consider implant treatment

Mae angen i ystyried cael triniaeth fewnblannu

D (iii). Advanced Restorative – Dentures

Adferiad Pellach – Dannedd Gosod

7. You need new dentures

Mae angen i chi gael dannedd gosod newydd

8. After I've taken an impression of your mouth, the dental technician will make dentures for you

Wedi i mi gymryd argraff o'ch ceg, mi gaiff y technegydd deintyddol wneud dannedd gosod i chi

9. Retching is not uncommon when you have impression material in your mouth

Dydi cael cyfog gwag ddim yn beth anghyffredin pan fydd gynnoch chi ddeunydd argraff yn ych ceg.

10. A denture usually takes four to five appointments to complete

Mae'n cymryd pedwar neu bum apwyntiad fel arfer i orffen y dannedd gosod

11. Do you like the look of the denture at this try-in stage?

Ydach chi'n hapus efo sut y mae'r dannedd gosod yn edrych hyd yma?

12. Is the new denture hurting your gums?

Ydi'r dannedd gosod newydd yn brifo'ch gorchfannau?

E. Periodontal / Periodontol

13. You have gum disease

Mae gynnoch chi haint ar eich gorchfannau

14. You need treatment to your gums

Mae'n rhaid i chi gael triniaeth i'ch gorchfannau

15. Do your gums bleed?

Ydi'ch gorchfannau chi'n gwaedu?

16. The x-rays show bone loss due to interdental calculus

Mae'r lluniau pelydr-x yn dangos coll-asgwrn oherwydd y calchgen sydd rhwng y dannedd

17. We need to show you how to look after your gums properly

Mae'n rhaid i ni ddangos i chi sut i edrych ar ôl eich gorchfannau'n iawn

18. We need to make a chart of your gum pocket depth and bleeding sites

Mae'n rhaid i ni wneud siart o ddyfnder pocedi'ch gorchfan a'r manau sy'n gwaedu

19. You have a very loose tooth which needs extracting

Mae gynnoch chi ddant rhydd iawn y bydd yn rhaid i ni ei dynnu

20. You have a periodontal abscess

Mae gynnoch chi grawniad periodontol

21. We need to make you a sblint

Mae'n rhaid i ni wneud sblint i chi

22. We need to ease the bite

Mae angen llacio'ch brathiad

23. Will you grind your teeth, please?

Wnewch chi grensian eich dannedd, os gwelwch chi'n dda?

24. Do you grind your teeth at night?

Ydach chi'n crensian eich dannedd yn y nos?

F (i). Emergency Treatment – Pain

Gofal Brys – Poen

7. Show me where you have toothache

Dangoswch i mi ble mae'r ddannodd

8. Is the tooth sensitive to hot and cold?

Ydi'r dant yn sensitif i boeth ac oer?

9. Is the tooth tender to the touch?

Ydi'r dant yn dendar wrth ei gyffwrdd?

10. How long does the pain last?

Am ba hyd mae'r boen yn para?

11. I'll give you something for the pain

Mi ro i rwbath i chi at y boen

12. Is the pain better now?

Ydi'r boen yn well erbyn hyn?

F (ii). Emergency Treatment – Trauma

Gofal Brys – Anafiadau

11. When did you traumatise the tooth?

Pryd wnaethoch chi frifo'ch dant?

12. Were you unconscious?

Oeddech chi'n anymwybodol?

13. Have you stored the tooth in milk?

Ydach chi wedi cadw'r dant mewn llefrith?

14. Has your bite changed?

Ydi'ch brathiad chi wedi newid?

15. Is your jaw tender?

Ydi'ch gên chi'n dendar?

16. We need an x-ray to check for a broken root

Mae'n rhaid i ni gymryd llun pelydr-x i weld a oes gwreiddyn wedi torri

17. You need a splint to support the tooth

Mae'n rhaid i chi gael sblint i gynnal y dant

18. We need to check the vitality of the tooth

Mae'n rhaid i ni gael golwg ar fywioldeb y dant

- 19. We need to put a temporary cover over the exposed pulp**
Mae'n rhaid i ni roi gorchudd dros dro ar y bywyn sydd yn y golwg
- 20. We need to replace the tooth in its socket**
Mae'n rhaid i ni osod yn dant yn ôl yn ei soced

F (iii). Emergency Treatment – Infection
Gofal Brys – Heintiau

- 5. There's an infection around your wisdom tooth / third molar**
Mae 'na haint o gwmpas y trydydd cilddant
- 6. Your face is swollen**
Mae'ch wyneb chi wedi chwyddo
- 7. You have an abscess**
Mae gynnoch chi grawniad
- 8. You need a course of antibiotics**
Mae'n rhaid i chi gael cwrs o wrthfotigau

G (i). Referral – General Anaesthetic
Cyfeirio – Anesthetig Cyffredinol

- 2. You need referral for a general anaesthetic**
Mae'n rhaid i chi gael anesthetig cyffredinol

G (ii). Referral – Oral Surgery
Cyfeirio – Llawdriniaeth y Geg

- 5. You need to have an extraction**
Mae'n rhaid i chi gael tynnu'r dant 'na
- 6. We'll have to refer you to a hospital consultant**
Bydd yn rhaid i ni'ch cyfeirio chi at ymgynghorydd yn yr ysbyty
- 7. You need surgical treatment**
Mae gofyn i chi gael triniaeth lawfeddygol
- 8. You will have to have your wisdom tooth extracted**
Mi fydd gofyn i chi gael tynnu'r trydydd cilddant

G (iii). Referral – Orthodontics
Cyfeirio – Orthodonteg

- 3. You need to be seen by an orthodontic specialist**
Mi fydd angen i chi fynd i weld orthodontegydd
- 4. You'll have to wear a brace for a period of time**
Mi fyddwch yn gorfod gwisgo sythwr dannedd am gyfnod

H. Children – Plant

- 1. Your child needs a filling in a baby tooth**
Bydd yn rhaid i'ch plentyn gael llenwad yn un o'i ddannedd cyntaf
- 2. Your child needs fissure sealant on the new adult teeth**
Mi fydd yn rhaid i'ch plentyn gael selydd rhychau ar ei ddannedd parhaol newydd
- 3. Your child needs oral health instruction**
Mae'n rhaid i'ch plentyn gael cyngor ar hylendid y geg
- 4. Your child needs plaque disclosure**
Mae'n rhaid i'ch plentyn gnoi tabled er mwyn dangos y plac
- 5. Your child needs referral to Community Dental Service**
Mae'n rhaid i'ch plentyn gael ei (g)weld gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol
- 6. Your child needs to stop sucking their thumb**
Mae'n rhaid i'ch plentyn roi'r gorau i sugno'i fawd / i sugno'i bawd
- 7. Your child needs to stop using a dummy**
Mae'n rhaid i'ch plentyn roi'r gorau i ddefnyddio dymi
- 8. Your child needs to brush his / her teeth at bedtime**
Mae'n rhaid i'ch plentyn frwsio'i (d)dannedd cyn mynd i'r gwely
- 9. Your child needs to use a daily fluoride mouthwash**
Mae angen i'ch plentyn ddefnyddio cegolch fflûworid bob dydd
- 10. You need diet advice for your child**
Mae angen i chi gael cyngor ynghylch deiet eich plentyn